

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 30th November 2015** at 7.25pm

PRESENT: - Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler
The Deputy Mayor, Councillor Dewi Williams

Councillors: -	Mrs L Day (chairman)	D Llewelyn	C O'Neal
	Mrs J Forsyth	Mrs J Marshall	N Pickavance
	J Wynn Jones	R K Marshall	G O Roberts
	M Shultan	J Martin	Colin King

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

135/15 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors D Madge (ill health) D Hainge (ill health) and E H Williams (ill health).

136/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

Councillor J Wynn Jones declared a personal and prejudicial interest in Item 140/15.

137/15 URGENT BUSINESS

The Chair welcomed Councillor Colin King who was attending his first meeting of the Finance and General Purposes Committee.

The Chair paid tribute to former Councillor Frank Woodcock who had recently passed away and asked Members of the Council to stand for 1 minute silence in memory of his passing.

138/15 CHRISTMAS LIGHTS SWITCH-ON

The Town Clerk reported that the official Christmas Lights switch-on by Her Worship the Mayor would be at 10.00 pm on Saturday 5 December 2015 by the Town Clock. He read out a message from The People of Bangor Community Group inviting Councillors to assist with the event which would formally commence at 9.00am and end at 6.00pm. It was noted that the City Council would continue to make a financial contribution to this event. A sum in the region of up to £1,000.

139/15 REQUEST FOR FINANCIAL ASSISTANCE & FINANCIAL DONATIONS

The Clerk reported that seven applications for financial assistance had been received, four of which were not based in the City of Bangor. Members noted that none of the applications had included the requisite package of documentation and information relating to the finances, constitution and funding proposals of the applicants.

RESOLVED that the four applications based outside Bangor be rejected and the remaining three local organisations be requested to submit a copy of their constitution, accounts for the last two years together with proposals for use of any monies granted by the Council. The Town Clerk was asked to publish details of the application process on the Councils web site as soon as practicable.

During the course of discussion of this item Councillor J Wynn Jones had left the room.

140/15 BANGOR PIER REVIEW

The Chair reminded Members that this matter had been discussed in detail at the last meeting when a presentation by the Consultant, Mr Jim O'Rourke was made to the Committee with a review of the previously failed HLF application possible future courses of action in order to proceed with works on the Pier or, at least an assessment of what was required.

This matter had been the subject of a pre-meeting briefing where details had been discussed about the history of developments of the Pier, a summary of all commission reports since 2004 together with conclusions had been considered with a view as to taking the matter forward in the best possible scenario not only for repairs and structural defects to be undertaken but also for the Council to find a clear way forward with regard to funding, grant application, safety, best value and promotion of the Pier in order that it be enjoyed not only by local residents but also by visitors to the City in the future.

It was recognised that grant funding was not as easy to come by as in previous years, however HLF Officers had encouraged the City Council to make a new application at some point in the future, in this a more detailed Engineers report would be required based on the examination of the structure under the deck to assess the condition to enable the Council to understand what works actually needed doing. It was recognised that an access platform beneath the deck would enable a Structural Engineer to easily assess the condition of the steelworks.

Inspections were also required of handrails establishing the load path from the handrails to the main structure drawings and recordings of the nature and extent of the defects on the components inspected would be required, a comparison to previous surveys with regard to the steelworks condition would be analysed as well as the ability of existing girders to carry imposed loads and provide advice on the remaining life of the girders.

It was accepted that once the Council were aware of the works required an assessment could be made as to whether the HLF bid would be re-submitted in light of the estimated costs and exact nature of the works. The Town Clerk also reported that he was investigating the best way to deal with urgent works appertaining to health and safety of visitors at the site.

RESOLVED that a structural survey be carried out on a test section of the Pier worst affected by the Elements. This to be conducted by qualified Structural Engineers and at that time a further quotation for the assessment for the full pier be obtained. This work would not interfere with any other work currently being carried out in connection with a possible HLF re-submission.

141/15 TY NEWYDD BAIL HOSTEL

Members noted that this matter had been placed on the agenda at the request of local Members in the Maesgeirchen area.

Several Members expressed concern about the alleged placement of serious offenders including those of a sexual nature at the Hostel. The Hostel was centred between Llandegai village and Maesgeirchen and concern was expressed that this Bail Hostel was holding higher level categories of offenders and there was also some concern as to the risk assessment process of ex-prisoners.

RESOLVED that representatives of the Bail Hostel, North Wales Police and the North Wales Probation Service be invited to attend a meeting of the Council to try and allay these fears.

142/15 PUBLIC SERVICES IN BANGOR OPERATED BY GWYNEDD COUNCIL –

The Town Clerk reported that he had attended a meeting with Gwynedd Council regarding the future of services within the City. A variety of services and assets were discussed and Members noted that the list was not exhaustive and could affect many services not as yet discussed. It was anticipated that a finalised list of potential devolved services would not be reached until February or March 2016, so therefore it was difficult to judge at this stage as to what services might be appropriate to transfer to the City Council and at what cost.

The Town Clerk further reported that together with the Chair of the Committee he had attended a meeting in Caernarfon Town Council Offices convened by Gwynedd Council to discuss the current CCTV arrangements and funding. It was noted that the City Council had not been contributing towards the Cameras whereas Caernarfon and Pwllheli had been contributing. It was pointed out that the University did actually make a contribution towards Bangor's 35 cameras however this fell well short of the contribution required by Gwynedd Council.

The Town Clerk had made various enquiries as to how the calculated estimate of the City Council's contribution had been drawn up and these negotiations were still on going. Members noted that the cameras in Maesgeirchen were also part funded by an outside body and accordingly this should be taken into account prior to the final calculation of Bangor City's contribution.

RESOLVED that the Town Clerk continue to negotiate a finalised figure as a contribution towards CCTV in the City and that once he was content with a fair and equitable figure the City Council make appropriate payment to Gwynedd Council and that this also be included in the estimates for 2016/17.

143/15 YOUTH REPRESENTATION ON CITY COUNCIL

The Town Clerk reported that he had written to all 16+ age educational establishments in the City to ascertain whether there was any interest of a youth representative in a non-voting capacity to be seconded onto the Council. It was noted only two responses had been received in the office, one of which was from a School which had only 3 pupils of the correct age. It was reported that Ysgol Friars School Council had formally appointed a delegate who would be available to become a youth representative on the City Council.

It was noted that the Local Government (Wales) Measure 2011 give the City Council the power to appoint up to 2 representatives aged 16 to 25 to represent the interest of young people who live, work or receive education or training in the area. Members expressed the preference that if a youth representative was allowed on the Council the person appointed should be a resident of the City.

RESOLVED that Ysgol Friars be invited to give details of their delegate to the Town Clerk and that a youth representative be appointed to the Council initially on a trial period to assess its value and sustainability.

144/15 NORTH & MID WALES ASSOCIATION OF LOCAL COUNCILS

The Town Clerk gave feedback from the meeting held in Flint 22 October 2015.

RESOLVED that the report be received.

145/15 FINANCIAL MATTERS

- i) Invoices for payment

It was **RESOLVED** that the invoices as detailed on the schedule covering voucher numbers 96/15 - 114/15 totalling £12,961.43 be approved and passed for payments.

- ii) Proposals for Internet Banking

The Town Clerk informed Members that a much more efficient and modern way of paying invoices would be through the process of Internet Banking which he had proposed be set up for the Council. It was noted that bank charges would probably reduce as a result of this change and Members would still receive a list of payments after being initially approved by any two of the following :- Mayor, Deputy Mayor, Chair and Vice-Chair of Finance & General Purposes Committee.

RESOLVED the proposals for Internet Banking as outlined and the approval process also be agreed.

- iii) 2nd Quarter Accounts –

Members received a report of Accounts and asked a number of questions to which the Town Clerk responded and for those areas where further information was requested the Clerk would circulate the information.

RESOLVED to receive and approve the Accounts as set out in the Report.

The Meeting finished at 9.00pm

Cofnodion **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun, 30^{ain} o Dachwedd 2015** am 7.20 y.h.

PRESENNOL :- Ei Theilyngdod y Maer y Cynghorydd Mrs E Butler

Y Dirprwy Faer y Cynghorydd Dewi Williams			
Y Cynghorwyr	M Shultan (Cadeirydd)	D Llewelyn	C O'Neal
	Mrs L Day	R K Marshall	N Pickavance
	J Forsyth	Mrs J Marshall	G O Roberts
	J Wynn Jones	J Martin	Colin King

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

135/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr D Hainge (gwaeledd), D Madge (gwaeledd) a E H Williams (gwaeledd).

136/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd J Wynn Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus yn Eitem 140/15.

137/15 MATERION BRYD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Colin King a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r cyn Gynghorydd Frank Woodcock a fu farw'n ddiweddar a gofynnodd i Aelodau'r Cyngor sefyll am funud er cof amdano.

138/15 TROI'R GOLEUADAU NADOLIG YMLAEN

Adroddodd Clerc y Dref y byddai'r Goleuadau Nadolig yn cael eu goleuo'n swyddogol gan Ei Theilyngdod y Maer am 10.00 pm nos Sadwrn 5 Rhagfyr 2015 ger Cloc y Dref. Darllenodd neges gan Grŵp Cymunedol Pobl Bangor a oedd yn gwahodd y Cynghorwyr i helpu â'r digwyddiad a fyddai'n dechrau'n ffurfiol am 9.00am ac yn dod i ben am 6.00pm. Nodwyd y byddai Cyngor y Ddinas yn parhau i wneud cyfraniad ariannol i'r achlysur hwn, sef swm oddeutu £1,000.

139/15 CEISIADAU AM RODDION A CHYMORTH ARIANNOL

Adroddodd y Clerc fod saith cais am gymorth ariannol wedi'u derbyn, pedwar ohonynt y tu allan i ffiniau Dinas Bangor. Nododd yr Aelodau nad oedd yr un o'r ceisiadau wedi cynnwys y dogfennau a'r wybodaeth angenrheidiol ynglyn a chyllid, cyfansoddiad a chynigion yr ymgeiswyr.

PENDERFYNWYD gwrthod y pedwar cais a oedd y tu allan i Fangor a gofyn i'r tri mudiad lleol arall afon copi o'u cyfansoddiad, cyfrifon y ddwy flynedd ddiwethaf ynghyd â chynigion i ddefnyddio unrhyw arian a roddir gan y Cyngor. Gofynnwyd i Glerc y Dref gyhoeddi manylion y broses ymgeisio ar wefan y Cyngor cyn gynted â bo hynny'n ymarferol.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon, gadawodd y Cynghorydd J Wynn Jones yr ystafell.

140/15 ADOLYGIAD PIER BANGOR

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y pwnc hwn wedi cael ei drafod yn fanwl yn y cyfarfod diwethaf pan gafwyd cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd, Mr Jim O'Rourke ynghyd ag adolygiad o'r cais aflwyddiannus i Gronfa Treftadaeth y Loteri, camau y gellid eu dilyn yn y dyfodol er mwyn symud ymlaen â gwaith ar y Pier, neu o leiaf asesiad o'r hyn a oedd angen.

Cafwyd sesiwn frifio cyn cyfarfod ar y mater hwn lle trafodwyd manylion am hanes datblygiadau'r Pier, crynodeb o bob adroddiad comisiwn ers 2004 ynghyd â chasgliadau'r rheiny. Roedd hyn er mwyn symud ymlaen ar y mater yn y ffordd orau bosibl, nid yn unig gwneud gwaith trwsio ac atgyweirio'r strwythur, ond hefyd i'r Cyngor ddod o hyd i ffordd eglur ymlaen o safbwynt cyllid, ceisiadau grant, diogelwch gwerth gorau a hyrwyddo'r Pier fel ei fod yn gallu cael ei fwynhau gan y trigolion lleol a chan ymwelwyr â'r Ddinas fel ei gilydd.

Cydnabuwyd nad oedd hi mor hawdd cael cyllid grant ag y bu yn y blynyddoedd diwethaf, ond roedd Swyddogion Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi annog Cyngor y Ddinas i wneud cais newydd ryw dro yn y dyfodol. I wneud hyn, byddai angen adroddiad peiranyddol manylach yn seiliedig ar archwilio'r strwythur o dan y dec i asesu ei gyflwr i alluogi'r Cyngor i ddeall pa waith oedd angen ei wneud yn union. Byddai plattform mynediad o dan y dec yn galluogi Peiranydd Adeiladu i asesu gyflwr y gwaith dur yn hawdd.

Roedd angen archwilio'r canllawiau hefyd gan sefydlu llwybr llwyth o'r canllawiau i'r prif strwythur, dylunio a chofnodi natur a hyd a lled y diffygion ar y cydrannau a archwiliwyd, cymharu ag arolygon blaenorol o ran cyflwr y gwaith dur, yn ogystal â gallu'r hytrawstiau presennol i gludo llwythau trwm a rhoi cyngor ar weddill oes yr hytrawstiau.

Unwaith bod y Cyngor yn ymwybodol o'r gwaith, derbyniwyd y gellid gwneud asesiad ynghylch a fyddai'r cais i'r Loteri yn cael ei ail-gyflwyno yng ngoleuni'r amcan gostau ac union natur y gwaith. Adroddodd Clerc y Dref hefyd ei fod yn ymchwilio i'r ffordd orau o ddelio â'r gwaith brys sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle.

PENDERFYNWYD fod arolwg adeiladu'n cael ei wneud ar ddarn prawf o'r Pier, sy'n cael ei effeithio fwyaf gan y tywydd. Dylai hwn gael ei wneud gan Beirianwyr Adeiladu cymwys a dylid gofyn yr un pryd am ddyfynbris pellach ar gyfer asesu'r pier llawn. Ni fyddai'r gwaith hwn yn torri ar draws unrhyw waith arall sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag ail-gyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri.

141/15 HOSTEL FECHNIAETH TY NEWYDD

Nododd yr Aelodau fod yr eitem hon wedi'i rhoi ar yr agenda ar gais yr Aelodau lleol yn ardal Maesgeirchen.

Mynegodd sawl Aelod bryder mawr am y si fod troseddwy'r difrifol yn cynnwys rhai rhywiol yn mynd i gael eu gosod yn yr Hostel. Mae'r Hostel wedi'i lleoli rhwng pentref Llandegai a Maesgeirchen a'r pryder oedd fod yr Hostel Fechniaeth hon yn dal categoriau lefel uwch o droseddwy'r a bod pryder hefyd ynglŷn â'r broses asesu cyn-garcharorion o ran risg.

PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiolwyr o'r Hostel Fechniaeth, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru i gyfarfod o'r Cyngor i geisio tawelu'r ofnau hyn.

142/15 GWASANAETHAU CYHOEDDUS YM MANGOR A WEITHREDIR GAN GYNGOR GWYNEDD –

Adroddodd Clerc y Dref iddo fynychu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ynghylch dyfodol gwasanaethau o fewn y Ddinas. Trafodwyd amryw o wasanaethau ac asedau a dywedodd yr Aelodau nad oedd y rhestr hon yn derfynol ac y gallai nifer o wasanaethau nas trafodwyd eto gael eu heffeithio. Y tebygrwydd oedd na fyddai rhestr derfynol o wasanaethau datganoledig posibl yn cael ei gwneud tan Chwefror neu Fawrth 2016, felly roedd hi'n anodd barnu ar hyn o bryd pa wasanaethau allai fod yn briodol eu trosglwyddo i Gyngor y Ddinas ac ar ba gost.

Adroddodd Clerc y Dref ymhellach ei fod ef a Chadeirydd y Pwyllgor wedi mynychu cyfarfod yn Swyddfeydd Cyngor Tref Caernarfon a alwyd gan Gyngor Gwynedd i drafod y trefniadau camerâu cylch cyfyng presennol a thalu amdanynt. Nodwyd nad oedd Cyngor y Ddinas wedi bod yn cyfrannu at y camerâu ond bod Caernarfon a Phwllheli wedi gwneud. Dywedwyd fod y Brifysgol yn rhoi cyfraniad at y 35 camera sydd ym Mangor, ond fod hyn yn bell o'r cyfraniad sydd ei angen gan Gyngor Gwynedd.

Roedd Clerc y Dref wedi gwneud sawl ymholiad ynghylch sut roedd amcan gost cyfraniad Cyngor y Ddinas wedi'i lunio ac mae'r trafodaethau hyn yn dal i fynd rhagddynt. Nododd yr Aelodau fod y camerâu ym Maesgeirchen yn cael eu hariannu'n rhannol hefyd gan gorff allanol ac felly dylid ystyried hyn cyn cyfrifo cyfraniad Dinas Bangor yn derfynol.

PENDERFYNWYD y dylai Clerc y Dref barhau i negydu ffigwr terfynol fel cyfraniad tuag at CCTV yn y Ddinas ac unwaith y byddai'n fodlon â swm teg a chyfiawn, y byddai Cyngor y Ddinas yn talu'r swm priodol i Gyngor Gwynedd ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys hefyd yn yr amcangyfrifon ar gyfer 2016/17.

143/15 CYNRYCHIOLAETH I IEUENCTID AR GYNGOR Y DDINAS

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi ysgrifennu at bob un o'r sefydliadau addysgol oed 16+ yn y Ddinas i weld a oedd diddordeb ganddynt mewn secondio cynrychiolydd ieuencid na fyddai'n pleidleisio, ar y Cyngor. Dywedwyd mai dim ond dau ymateb a dderbyniwyd yn y swyddfa, y naill gan ysgol lle'r oedd dim ond 3 disgybl o'r oed cywir. Adroddwyd fod Cyngor Ysgol Friars wedi penodi cynrychiolydd yn ffurfiol a fyddai ar gael i fod yn gynrychiolydd ieuencid ar Gyngor y Ddinas.

Nodwyd fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i benodi hyd at ddau gynrychiolydd 16 i 25 oed i gynrychioli buddiannau pobl ifanc sy'n byw, yn gweithio neu'n cael addysg neu hyfforddiant yn yr ardal. Dywedodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt pe bai cynrychiolydd ieuencid yn cael ei ganiatau ar y Cyngor, yna dylai'r unigolyn hwnnw fod yn rhywun sy'n byw yn y Ddinas.

PENDERFYNWYD gwahodd Ysgol Friars i roi manylion eu cynrychiolydd i Glerc y Dref a phenodi cynrychiolydd ieuencid i'r Cyngor ar gyfnod prawf i ddechrau er mwyn asesu gwerth a chynaliadwyedd y cynllun.

144/15 CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Rhoddodd Clerc y Dref adborth o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn y Fflint ar 22 Hydref, 2015

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

145/15 MATERION CYLLID

- i) Anfonebau i'w talu

PENDERFYNWYD derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif 96/15 - 114/15 yn rhoi cyfanswm o £12,9611.43.

- ii) Cynigion ar gyfer Bancio ar y Rhynggrwyd

Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau mai ffordd lawer mwy effeithiol a modern o dalu anfonebau fyddai drwy Fancio ar y Rhynggrwyd a chynigiodd fod hyn yn cael ei sefydlu ar gyfer y Cyngor. Nodwyd y byddai ffioedd y banc yn debygol o ostwng o ganlyniad i'r newid hwn ac y byddai'r Aelodau yn dal i gael rhestr o daliadau wedi iddynt gael eu cymeradwyo i ddechrau gan unrhyw ddau o'r canlynol :-

Y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol.

- iii) Cyfrifon 2ail Chwarter – er gwybodaeth (i'w rhannu yn y cyfarfod)

PENDERFYNWYD derbyn a chaniatáu'r Cyfrifon fel eu gosodwyd allan yn yr adroddiad a rannwyd allan yn y Cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm

CADEIRYDD